# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Lun – 12fed o Fedi, 2022** |
| **AMSER** | **7 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Capel Isaf Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Sianelen Pleming** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd Sianelen Pleming **(SP)** bawb i'r cyfarfod. Rhannodd gydymdeimladau'r aelodau gydag Ynyr a'i deulu yw profedigaeth yn dilyn marwolaeth ei daid.<br><br>Yn bresennol heno roedd:<br>Sara Williams **(SW);** Ynyr Ellis **(YR)**; Lois Mercs **(LM);** Lisbeth James **(LJ)**; William Jones **(WJ)** Griffith John Leslie Jones **(GJLH);** Gethin Jones **(GJ)**; Jina Gwyrfai **(JG)** ar clerc Gillian Thomas **(GT).** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Emlyn Williams **(EW)** |
| **3.** | **COFNODION CYFARFOD GORFFENNAF 2022** |
| | **a) <u>CYFLWYNO A MABWYSIAD</u>**<br>Cynigwyd cofnodion cyfarfod Gorffennaf 2022 yn gywir gan GJ gydag GJLJ yn eilio a phawb yn cytuno<br><br>**b) <u>MATERION YN CODI</u>**<br><br>**i. <u>SW – TWMPATHAU</u>**<br>Gan nad oedd SW wedi clywed dim am unrhyw ymgynghoriad gyda'r trigolion, gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau pellach. Derbyniwyd ymateb gan Andrew Gregson yn esbonio:<br>Yn gyffredinol nid yw'r uned yn gweithredu ar newidiadau ffisegol i arafu traffig i'r rhwydwaith onid bai bod yna gytundeb hir dymor yn ei le. Yr ydym yn gobeithio pan ddaw'r cyfyngiadau newydd 20mya i rym gaiff hyn effaith ar gyflymder ar ei phriffyrdd.<br>Gan nad yw'r gwaith cynnal a chadw'r twmpathau presennol (sydd wedi ei adrodd ers mis Ionawr 2022) wedi ei gynnal y chwaith. Y clerc i lythyru eto.<br><br>**ii. <u>LF - GROESFFORDD PENTREF UCHAF</u>**<br>Gyrrwyd cais am gefnogaeth i Gyngor Plwyf Boduan. Derbyniwyd ymateb yn cadarnhau eu cefnogaeth gyda gwybodaeth nad yw'r groesffordd tŷ mewn i ffiniau Boduan. Gyrrwyd y cais ymlaen I Gyngor Cymuned Llannor. Nid oedd ymateb wedi ei dderbyn hyd yn hyn.<br><br>**iii. <u>LF - LLWYBR CERDDED O DŶ GWYN I LWYN FFYNNON YM MHISTYLL</u>**<br>Adroddwyd gwyn am gyflwr y gordyfiant ar y llwybr i'r Cyngor Sir. Derbyniwyd gair yn cadarnhau bod swyddog wedi bod yn strimio'r wythnos diwethaf.<br><br>**iv. <u>OR - PONT BRYN CELYN ISAF</u>**<br>Adroddwyd y gwyn i'r Cyngor Sir / Dim wedi digwydd hyd yn hyn, y clerc i ail adrodd y gwyn a gofyn iddynt lythyru a'r perchennog.<br><br>**v. <u>LLECHI TO'R GYSGODFA</u>**<br>Gan fod amser maith wedi mynd heibio ers cwyn gwreiddiol am gyflwr to'r gysgodfa cytunodd GJLJ ei atgyweirio yn ystod y mis am gostau nwyddau.<br><br>**vi. <u>LWFANSAU AELODAU</u>**<br>Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn cadarnhad gan Un Llais Cymru bod trefniadau'r aelodau i wrthod y tal blynyddol yn parhau i fod yn dderbyniol. |

| | |
|---|---|
| | vii. **<u>CYSGODFA BWS AWELFRYN</u>**<br>Ail drafodwyd ymateb y Cyngor Sir I gais yr aelodau i ail leoli'r gysgodfa.<br>Y clerc i lythyru gyda chwmni Bysus Nefyn I'w hysbysebu i fod yn wyliadwrus bod modurwyr a cherddwyr yn bryderus am weledіad ar y safle.<br><br>viii. **<u>CYFARFODYDD ARDAL NI</u>**<br>Cytunodd yr aelodau bydd dau yn mynychu. Bydd rhaid derbyn a rhannu dyddiadau a lleoliad cyfarfodydd cyn symud ymlaen i benderfynu pwy. |
| **4.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Dim |
| **5.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Popeth mewn cyflwr da |
| **6.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | **RHIF APÊL: CAS-01829-P5F2P9 -**<br>**Fferm Tan Y Foel, Llithfaen, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6LY**<br><br>Gyrrwyd sylwadau'r Cyngor ymlaen ym mis Hydref 2021 nad oedd gwrthwynebiad ar y ddealltwriaeth mae cais i 4 pod yn unig oedd hwn ac ni fydd cynyddu yn y dyfodol. Roeddent hefyd wedi argymell i sicrhau bod unrhyw arwyddion ar y safle yn ddwyieithog.<br>Gyrrwyd pryderon ychwannegol i'r Cyngor Sir parthed ffenest ymateb i'r cais.<br><br>Roedd erbyn hyn yn amlwg fod y Cyngor Sir wedi gwrthod y cais gan ei fod yn groes i 24 o bolisïau Cyngor Gwynedd.<br><br>I bwrpas yr apêl cytunodd yr aelodau gefnogi gwrthynebiadau'r Cyngor Sir ac ail gynnig sylwadau a phryderon y Cyngor Cymuned i'r cais gwreiddiol.<br>Y clerc i yrru sylwadau'r Cyngor yn ffurfiol i JG i'w galluogi eu gyrru ymlaen i'r Panel Apêl. |
| **7.** | **MAES CARAFANAU TŶ'N PARC** |
| | Yn dilyn cyfarfod brys y Cyngor Cymuned yn ystod y mis i drafod bwriad Ty'n Parc I sefydlu safle gwersylla, gyrrwyd gwrthwynebiadau'r aelodau a thrigolion yn eu blaen I Dynn Parc a'r Clwb Carafanau a llythyrwyd gyda Sian Gwnellian, Dwr Cymru, ANHE, Mabon ap Gwynfor a'r Adran Gynllunio yn gofyn am gefnogaeth.<br>Derbyniwyd ymatebion gan Dwr Cymru a'r Adran Gynllunio.<br>Adroddodd SP bod y Clwb Carafanau bellach wedi gwrthod y cais.<br>Derbyniwyd argymellion gan y Cyngor Sir I fod yn wyliadwrus o'r sefyllfa. |
| **8.** | **LLWYBR LLESIANT PISTYLL I NEFYN** |
| | Adroddodd y clerc ymateb wedi ei dderbyn gan y Cyngor Sir i gais Cyngor Cymuned Pistyll a Chyngor Tref Nefyn am lwybr llesiant rhwng Pistyll a Nefyn.<br>Roeddent o farn bod y gwasanaeth traffig dros y blynyddoedd diwethaf wedi cymryd camau i geisio sicrhau bod y llwybr yn derbyn sylw.<br>Yn 2019, cyflwynwyd cais i Lywodraeth Cymru am gyfraniad o £3.5M, dros gyfnod o 2 flynedd, i wireddu'r weledigaeth. Y bwriad oedd defnyddio'r arian i greu'r cynlluniau manwl a chychwyn trafodaethau gyda thir |

*LLOFNODWYD ......................................................................... DYDDIAD .........................................................................*

| | |
|---|---|
| | feddianwyr yn y flwyddyn gyntaf ac yna adeiladu'r cynllun yn yr ail flwyddyn. Yn anffodus, ni fu'r cais yn llwyddiannus.<br>Nid hwn oedd yr unig gynllun i fod yn aflwyddiannus. Dros y 5 mlynedd diwethaf, nid yw Cyngor Gwynedd wedi llwyddo i ddenu llawer o arian, sydd tu hwnt i'r cyfraniadau craidd, ar gyfer gwella ein rhwydwaith teithio llesol. Y prif reswm dros hynny yw bod y Cyngor yn cael hi'n anodd cyfiawnhau i Lywodraeth Cymru'r<br><br>costau ychwanegol o adeiladu darpariaeth cerdded a beicio mewn rhai ardaloedd ar gyfer pwrpas o geisio newid dull deithio poblogaeth Gwynedd yn gyffredinol.<br>Yn 2021, cyflwynodd Llywodraeth Cymru strategaeth newydd ar gyfer Cynllun Trafnidiaeth yng Nghymru. Mae'r ddogfen yn rhoi llawer mwy o bwyslais nag yn y gorffennol ar ddulliau mwy cynaliadwy o drafaelio gyda Theithio Llesol a gwella ein Trafnidiaeth Gyhoeddus yn cael eu hadnabod fel blaenoriaeth. Er hynny, nid ydym hyd yma wedi gweld y lefel o gyllid gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n caniatáu cynghorau lleol i fuddsoddi mewn staff arbenigol yn ogystal ag arian cyfalaf dros gyfnod aml-flwyddyn i ganiatáu gallu gwireddu nifer o gynlluniau uchelgeisiol i wella ein rhwydwaith.<br>Mae hyn yn golygu ei bod yn anochel y bydd angen i'r Cyngor flaenoriaethu cynlluniau Teithio Llesol. Os am sicrhau arian ychwanegol gan y llywodraeth, bydd angen rhoi mwy o bwyslais ar y cynlluniau hynny sy'n fwyaf tebygol o wneud i drigolion Wynedd gadael eu car adref a defnyddio dull arall o deithio.<br>Nid yw'r uchod yn golygu fod y Cyngor yn diystyru eich dymuniad i greu llwybr newydd sy'n cysylltu Pistyll a Nefyn. Ond bydd angen ail-edrych ar y cynllun fel rhan o broses blaenoriaethu cynlluniau teithio llesol ar gyfer y dyfodol.<br>Rydym ar hyn o bryd yn ymgynghori ar gynlluniau teithio llesol yng Ngwynedd, a bydd y broses yn dod i ben ym mis Awst 2022. Yn dilyn hynny, mi fydd y gwasanaeth yn ystyried yr holl ymatebion ac yn dilyn proses o flaenoriaethu cynlluniau teithio llesol ledled y sir, gan gynnwys y llwybr rhwng Pistyll a Nefyn.<br>Ar hyn o bryd maent yn obeithiol y byddent wedi gorffen y proses yma erbyn diwedd mis Tachwedd 2022 fel bod y gwasanaeth mewn sefyllfa i fedru dethol cynlluniau ar gyfer y gronfa ariannol teithio llesol 2023/24 erbyn mis Rhagfyr eleni.<br>Mae llythyr o gefnogaeth i lwybr rhwng Pistyll a Nefyn yn bwysig iawn ar gyfer y proses hynny ac, wrth gwrs, mi fydd y Cyngor yn rhoi pwysau perthnasol ar ddymuniadau'r cymunedau fel rhan proses gwerthuso.<br>Wrth gwrs, yn ychwanegol i gyllid penodol Teithio Llesol, mae'n bosib y bydd cyfleoedd eraill yn codi i'r gwasanaeth allu cyflwyno cais am gyfraniad ariannol o gronfeydd eraill i gynnal gwelliannau diogelwch i'r rhan yma o'r ffordd.<br><br>Cytunwyd ymateb gan gopïo Griff Williams, Cyngor Tref Nefyn ac ANHE |
| **9.** | **B4417 - CYNLLUN BLAENORIAETH TRAFFIG – PONT MIN AFON, LLITHFAEN** |
| | Derbyniwyd ymateb gan Andrew Gregson:<br>Mae'r Uned Traffig Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad wedi derbyn nifer o gwynion sydd yn ymwneud gyda cherbydau yn dod i gyferbyn i'w gilydd ar bont Minafon, Llithfaen wrth deithio am Lanaelhaearn, ac wrth gwrs yn ôl am Lithfaen.<br>Y broblem yw lled y bont ac o ganlyniad yn rhy gul i adael i ddau gerbyd groesi yw gilydd ar unwaith wedi cyrraedd y bont. Er gwybodaeth, tua 5.0 medr yw lled y bont yn ei ganol. Yr ydym wedi derbyn gwahoddiad i edrych os oes yna ffordd o wella'r ddarpariaeth sydd wrth ymyl y bont drwy ddarlunio system blaenoriaeth traffig. Felly o ganlyniad mae'r adroddiad yma yn manylu cynllun arfaethedig gyda dyluniad bras. Yn ogystal, ar ddiwedd yr adroddiad, mae yna argymhellion sydd wedi ei wneud ar ôl edrych ar yr opsiynau, dyluniad a rhwystrau presennol y lleoliad. Y bwriad yw cyflwyno datrysiad ymarferol ac effeithiol sydd yn helpu llif traffig trwy'r pentref ac yn ceisio lleihau problemau ychwanegol a all ddod i'r wyneb ar ôl i'r ddarpariaeth gael ei gyflwyno.<br><br>**<u>ARGYMHELLION</u>**<br>Fel y gwelwch wrth edrych ar y cynllun uchod mae'r uned traffig yn argymell trefn sydd yn rhoi blaenoriaeth i draffig sydd yn teithio i mewn i'r pentref o gyfeiriad Llanaelhaearn. Y rheswm am hynny - yn syml - yw'r gweledледd. Mae gyrwyr o gyfeiriad y pentref allu adnabod cerbydau sydd yn dod yw gyferbyn yn bellach lawer i ffwrdd na gyrwyr sydd yn dod i mewn i Lithfaen. Er hyn yr wyf yn cydnabod efallai gyda'r cynllun hyn |

*LLOFNODWYD .................................................................................... DYDDIAD ..............................................................................*

| | |
|---|---|
| | fydd yna dagfeydd yn ymestyn yn ôl tuag at y pentref os oes cerbydau wedi parcio yn agos i'r ochr Gorllewinol o'r bont. Er mae argymell yw hyn, yr ydym fel uned yn hapus i dderbyn sylwadau sydd yn groes i'r argymell cyn belled y maent wedi ei ddarlledu a'r sail pwyntiau technegol neu ymarferol. Ar ddiwedd y dydd, trigolion Llithfaen sydd orau allu ddatgelu rhwystrau'r traffig sydd yn bodoli yn y pentref, ac o ganlyniad yn y lle mwyaf manteisiol i fagu barn a chynnig y datrysiad orau i wella llif traffig trwy'r pentref. Mae'n bwysig i mi eich hysbysu dim ond pwynt cychwyn yw hyn, gyda'r bwriad yn y pen draw i weithredu ar y ddarpariaeth gorau i'r gymuned. Edrychaf ymlaen at dderbyn eich sylwadau ac mae yna groeso i chi cysylltu yn ôl gyda mi.<br><br>Y clerc i ddiolch iddo am ei waith a'i atgoffa mae bwriad y cais oedd i osgoi peryglon i fodurwyr a cherddwyr sy'n cael problemau osgoi ceir sydd wedi parcio ar hyd ochor y ffordd wrth geisio gadael y pentref am Gaernarfon. Ni fydd rhoi blaenoriaeth i unrhyw lif o draffic i mewn i'r pentref yn datrys hyn. |
| **10.** | **Y GANOLFAN** |
| | Adroddodd SP bod Pwyllgor y Ganolfan bellach wedi penderfynu llythyru a thrigolion y pentref yn eu hysbysebu o fwriad sefydlu bolard ar fannau parcio'r ganolfan yn dilyn camddefnydd o'r maes parcio gan drigolion ac ymwelwyr. Bydd hyn yn osgoi trafferthion pellach i'r rhai sydd â chytundeb parcio gyda'r Ganolfan.<br>Adroddodd ymhellach bod Swyddog ANHE wedi llwyddo sicrhau £150,000.00 o grant tros dair blynedd i baratoi'r gwaith ar y tamprwydd yn y Ganolfan. Bydd angen cynllun busnes ac arwyddo'r les newydd cyn i unrhyw gyllid gael ei ryddhau.<br>Bydd angen blaenoriaethu ar waith fydd mwy na thebyg yn golygu ni fydd y cyllid yn ymestyn i waith sydd ddim yn hanfodol. I berwyl hyn efallai bydd angen i'r Cyngor barhau i wneud cais am fenthyciad i wneud y gwaith yn gyflawn. |
| **11.** | **MAES PARCIO, NANT** |
| | Nid oedd diweddariadau pellach am gofrestru'r tir.<br>Adroddodd yr aelodau fod y broblem gyda gwersylla dros nos ar y safle wedi bod yn well dros yr haf. |
| **12.** | **MATERION LLEOL** |
| | **a)** **<u>SP - CEIR YN PARCIO WRTH Y SIOP YN GYSON</u>**<br>Rhannodd SP bryderon am ddadlwytho yn dilyn camddefnydd o'r mannau parcio.<br>Y clerc i ofyn i'r Cyngor Sir wneud arolwg gyda bwriad cael cyfyngiadau mae man llwytho yn unig yw'r safle.<br><br>b) **<u>OR – CYFARFODYDD Y CYNGOR CYMUNED</u>**<br>Oherwydd chwyddiant mewn nwydd a thrydan cynigwyd talu LJ dreuliau am y gwres a golau yn Nhabor wrth gynnal unrhyw gyfarfod y Cyngor - cytunodd yr aelodau.<br><br>**c)** **<u>WJ – GWRYCH WEDI GORDYFU</u>**<br>Adroddodd WJ am y gwrych wedi gordyfu ger Pen Isa' Lôn Pistyll , Y clerc i adrodd i'r Cyngor Sir. |
| **13.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| | **a)** **<u>GRANT DEFNYDD CYMUNEDOL O YSGOLION</u>**<br><br>**b)** **<u>YMGYNGHORI AR GYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY CYNGOR GWYNEDD</u>**<br><br>**c)** **<u>CYNLLUN GWELLA PLAFFORM DIGIDOL GWYNEDD</u>** |

*LLOFNODWYD ........................................................................... DYDDIAD ...........................................................................*

| | |
|---|---|
| | d) **GRANT Y RHAGLEN CYMUNEDAU GWYDN // RESILIENT COMMUNITIES PROGRAMME GRANT**<br><br>e) **NEWYDDLEN GWYBODAETH I DEULUOEDD GWYNEDD**<br><br>f) **CHRISTOPHER DAVIES - DAILY POST – PROSIECTAU LLEOL**<br><br>g) **TREFOR EIFL ROAD YMGYNGHORIAD CYN YMGEISIO WC**<br><br>h) **CYNNYDD TÎM TACLUSO ARDAL NI**<br><br>i) **BWLETIN NEWYDDION UN LLAIS CYMRU** |
| **14.** | **CYLLID** |

**a) CYSONIAD A RHAGAMCANION 2022/23**

Cymeradwywyd y cysoniad a'r rhagamcanion gyda'r aelodau yn cytuno eu cywirdeb

**b) CYFRIFLEN BANC**

| **CYFRIF CYFREDOL – 1 o Orffennaf i 31 o Awst 2022** | |
|---|---|
| | |
| Balans cychwynnol | 11,501.52 |
| Taliadau i mewn | 6,000.00 |
| Taliadau allan | 786.50 |
| Balans terfynol | 16,715.02 |

| **CYFRIF CADW – 7 o Fai i 6ed o Fedi 2022** | |
|---|---|
| | |
| Balans cychwynnol | 2,661.01 |
| Taliadau i mewn | 0.99 |
| Taliadau allan | 0.00 |
| Balans terfynol | 2,662.00 |

**c) TALIADAU I'W CYMERADWYO**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 10.08.22 | **201248** | Gillian Thomas | Cyflog clerc | **230.00** |
| 10.08.22 | | Gillian Thomas | Treuliau Clerc | **14.00** |
| 10.08.22 | **201249** | Hughes, Jones, Dyson | Payroll | **216.00** |
| 10.08.22 | **201250** | Cyngor Gwynedd | Archwilio Mewnol | **204.00** |
| | | | | |
| 12.09.22 | **201251** | G Thomas | Cyflog Clerc | **230.00** |
| 12.09.22 | | G. Thomas | Treuliau Clerc | **23.90** |
| 12.09.22 | **201252** | D. Ellis | Cynnal Deffib | **74.39** |

| | |
|---|---|
| **15.** | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | 11eg o Hydref, 2022 – Capel Tabor, Llithfaen |

*LLOFNODWYD ........................................................................ DYDDIAD ........................................................................*